

## **Atodiad 1: Sgôp Prosiect Cydweithio Rhanbarthol i Drawsnewid Cludiant**

### Sgôp y Prosiect

Mae'r prosiect wedi esblygu dros amser, ond canfuwyd sgôp y prosiect yn ystod camau cynnar ac mae'n cynnwys yr elfennau canlynol.

- Cludiant Cyhoeddus (gwasanaethau bws lleol)
- Cludiant Addysg (Ysgol, AAA ac ôl 16)
- Cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol

Cafodd y meysydd canlynol eu heithrio o sgôp y prosiect

- Meini Prawf Cymhwyster
- Trwyddedu Tacsî
- Rheoli Fflyd

Darperir y gwasanaethau presennol gan bob un o'r chwe Awdurdod Lleol ac mae'r ffeithiau allweddol canlynol yn berthnasol:-

- Mae yna 46.6 o staff CLIA mewn sgôp
- Mae'r gyllideb gros tua £47m
- Costau cyflog yn 3% o'r cyfanswm cyllideb
- £24m yn cael ei wario ar gludiant addysg
- £7m yn cael ei wario ar gytundebau gwasanaeth bws
- £14.5m yn cael ei gyllido trwy grant Llywodraeth Cymru.

Mae'r achos dros Newid yn seiliedig ar alluogi Awdurdodau i:-

- Ymateb i'r toriadau yn y gyllideb sy'n effeithio ar Lywodraeth Leol yn gyffredinol
- Ymateb i'r 25% o doriad penodol mewn grantiau ariannu bysus gan Lywodraeth Cymru
- Mwyhau cyfleoedd i wella gwytnwch gwasanaeth, set sgiliau, gallu, caffael, effeithiolrwydd proses a'r ymateb i'r galw
- Ymateb i fentrau Cenedlaethol fel y Cytundeb Simpson.